CPLlL

Gofalu am eich pensiwn

00:00
Pensiynau yn Syml: Gofalu am eich pensiwn

00:06
Mae pensiwn yn ffordd hyblyg i gynilo am fywyd ar ôl gwaith

00:10
a bydd cadw llygad arno yn sicrhau na fydd gennych unrhyw beth annisgwyl.

00:15
Mae'r swm rydych chi'n ei gyfrannu tuag at eich pensiwn yn dibynnu ar faint rydych chi wedi'i dalu.

Ar y sgrin: rhwng 5.5% a 12.5% o'ch cyflog

00:20
Cofiwch, os ydych chi'n talu treth, byddwch chi'n derbyn rhyddhad treth

00:26
sy'n golygu bod y gost i chi yn llai.

00:30
Y newyddion da yw bod y CPLlL yn rhoi cyfle

00:33
i chi gynyddu neu leihau eich taliadau.

00:38
Os oes angen, gallwch leihau eich cyfraniadau.

00:41
Gelwir hyn yn opsiwn 50/50.

00:45
Rydych chi'n talu hanner y gyfradd gyfrannu arferol ac yn cronni hanner y pensiwn.

00:51
Gallwch symud yn ôl i'r brif adran pryd bynnag y byddwch chi'n barod

00:54
ac nid oes cyfyngiad i'r nifer o weithiau y gallwch gyfnewid.

01:00
Gallwch hefyd dalu mwy i gynyddu eich pensiwn.

01:03
Gallwch brynu pensiwn CPLlL ychwanegol trwy dalu Cyfraniadau Pensiwn

Ychwanegol

01:10
Neu dalu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i ddarparwr CGY eich cronfa bensiwn.

01:18
Fodd bynnag, mae cyfyngiad ar faint o bensiwn

01:22
y gallwch ei gronni mewn blwyddyn cyn i chi dalu treth ychwanegol.

Ar y sgrin: 5 Ebrill

01:27
Cymerwch gip ar eich datganiad buddion blynyddol

01:30
neu gofynnwch i'ch cronfa bensiwn ddarganfod gwerth cyfredol eich pensiwn.

01:35
Ewch i wefan CPLlL i gael mwy o wybodaeth am yr opsiwn 50/50

Ar y sgrin: lgpsmember.org

01:39
a sut i gynyddu eich cyfraniadau.

01:42
Gallwch hefyd wylio mwy o’n fideos ‘Pensiynau yn Syml’.

01:49
CPLlL. I chi. Am nawr. I’r dyfodol.

01:53
Mae'r fideo hwn ar gyfer gweithwyr yng Nghymru a Lloegr sy'n gymwys i ymuno â'r CPLlL. Mae'n darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n cynrychioli cyngor ariannol. Nid yw'n darparu unrhyw hawliau cytundebol na statudol ac os bydd unrhyw anghydfod bydd y ddeddfwriaeth briodol yn drech.